**Apêl am Gefnogaeth Ariannol — Cymorth Rhoddion** (*Gift Aid*)

Mae pob aelod bellach wedi derbyn Adroddiad Blynyddol y Capel am y flwyddyn 2003. Fe sylwch ynddo ein bod wedi elwa o ad-daliad Treth Incwm o £2,416 am y flwyddyn gan y llywodraeth, ac mae hwn yn gyfrwng cyllidol pwysig y dyddiau hyn i hybu gwaith yr Achos yma yn y Garn. Mae’r ffigur yn gyfystyr â bron £13 am bob aelod o’r Capel.

Wrth gwrs, mae nifer derbyniol iawn o’r aelodaeth bellach wedi llenwi ffurflen Cymorth Rhoddion gyda’r bwriad o gyfrannu’n hollol ddiffwdan a di-gost tuag at ein costau blynyddol. Os ydych chi’n talu treth incwm a heb ymuno eto â’n hymgyrch, cysylltwch â mi am y ffurflen bwrpasol, sy’n ddigon syml a di-drafferth i’w llenwi.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cefnogaeth.

D B Lloyd (Ysgrifennydd Ariannol)

**Yr Adeiladau**

Fel sy’n hysbys i bawb bellach, mae’r gwaith o ail-lechu talcen y Capel wedi’i orffen yn foddhaol a chrefftus dros ben. Mae ein diolch yn fawr iawn i Alun Phillips, Maes Ceiro, a’i fab Siôn am eu gwaith. Cyfanswm terfynol cost cyflawni’r gwaith yw £16,138, ac rydym yn ddyledus iawn am y grantiau a gafwyd tuag at ein treuliau oddi wrth nifer o noddwyr. Fe ddangosir y manylion ar hysbysfyrddau’r Capel yn y dyfodol agos, wedi derbyn yr olaf o’r grantiau.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wneud toiledau i’r dynion a’r anabl ym Methlehem, Llandre, er mwyn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch cyfleusterau adeiladau cyhoeddus. Mae’r gost o gyflawni’r gwaith hwn – oddeutu £2,200 – yn cael ei hysgwyddo’n llawn gan grantiau Treftadaeth Llandre a Chronfa Eleri/Amgen, ac mae ein diolch yn fawr iddynt.

D B Lloyd (Goruchwyliwr yr Adeiladau)

***Mynwent y Garn* –** Bydd y gwaith mawr yn y fynwent wedi ei orffen cyn y Pasg. Mae ein diolch yn fawr iawn i Mr Emlyn Rees am sicrhau llwyth da o bridd i wastatáu blaen y fynwent ac am blannu bylbiau Cennin Pedr.

Mae’n hyfryd gweld cymaint o deuluoedd wrthi eisoes yn tacluso’u beddau erbyn y Pasg.

Eddie Jones (Goruchwyliwr y Fynwent)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 13 Mehefin i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 13 — Gwanwyn 2004



***Gweinidog***
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

*Gair gan y Gweinidog*

Mae hen ddihareb sy'n dweud mai 'gwell yw cynnau un gannwyll fechan na rhegi'r tywyllwch'. Drwy'r cyfrynau, rydym yn ymwybodol o'r tywyllwch — yn rhyfel ac anghyfiawnder, yn drais a newyn. Ond eleni eto, ar Chwefror 28ain, aeth y fan â 44 o focsys bwyd a bron £200 o'r Garn i Bosnia. Mae'r angen yno mor fawr ond, trwy'r rhoddion hyn, rydym wedi cynnau un gannwyll fechan a fydd o help a bendith, gobeithio. Diolch i chi am eich haelioni.

Ar Fai 16eg, byddwn yn cynnal oedfa arbennig, yn enw Cymorth Cristnogol, i gofio eto am yr anghenus, a bydd Manon, un o bobl ifanc yr Eglwys, yn dod i sôn am ei phrofiadau. Ar ddiwedd yr oedfa, ceir cinio bara a chaws, ac rwy'n siwr y gwelwn yr un haelioni eto.

Carwn ddymuno i chi oll Basg bendithiol,

Yn gywir iawn

*Robert W Jones*

Apêl arbennig gan Mrs Gaenor Hall:

Gofynnwyd i mi roi noson ar J. T. Rees i Gymdeithas Dreftadaeth Llandre. Gan mai pobl ddi-Gymraeg yw mwyafrif yr aelodau, cytunais ar yr amod ein bod yn cael cyfieithydd ar y pryd i mi gael siarad Cymraeg. Yn naturiol, maent am glywed rhai o gyfansoddiadau J. T. Rees ac felly, tybed a fuasech chi, gynifer ag sy'n bosibl ohonoch, yn barod i'm cefnogi? Emyn-donau fel 'Iesu biau'r gân' a 'Llwynbedw' etc. fydd angen i chi eu canu—pethau cyfarwydd!

Buaswn ddiolchgar tu hwnt o gael help gennych. Teimlo'r wyf fod dyletswydd arnom fel Cymry i gyflwyno'r ardal i ddieithriaid di-Gymraeg sydd wedi dod i fyw yn ein plith. Byddant hwythau, rwy'n siŵr, yn mwynhau gwrando ar gynulleidfa yn canu.

Dewch, plîs. Ebrill 21 yw'r dyddiad – ym Methlehem, Llandre. Daw mwy o wybodaeth yn nes at y dyddiad.

## Grŵp Help Llaw



**Bosnia**

Mae'r llwyth o fwydydd sych a nwyddau amrywiol wedi cyrraedd Bosnia erbyn hyn, y cyfraniadau at y tanwydd (£195.00) wedi eu gwario a'r teganau meddal wedi eu dosbarthu. Diolch am bob cyfraniad a help llaw.

**Lithuania**

Mae'r lleianod yn Lleiandy Urdd y Carmeliaid yn Nolgellau yn cydweithio gyda Lleiandy cyffelyb yn Lithuania ac yn sicrhau bod cymorth yn mynd allan yno i'w ddosbarthu i'r tlodion a'r anghenus sy'n byw yn y wlad o gwmpas y Lleiandy. Oherwydd yr oerfel difrifol, mae angen dybryd am ddillad cynnes wedi eu gwau. Tybed a fedrwch chi helpu? Cysylltwch â Shân neu Bethan, os gwelwch yn dda.

**Oxfam**

Diolch am dros ddeuddeng mil o stampiau sydd wedi ein cyrraedd ers y Dolig. Daliwch ati.

## Mehefin

**6** Richard Llwyd Jones

11 Te Bethlehem am 6.30 o’r gloch


**13** Parch Athro Alwyn Roberts

**20** Bugail – Cymun yn oedfa’r bore



**27** Bore – Parch Richard Lewis
Bugail – Oedfa’r hwyr ym Methlehem, Llandre
Gŵyl yr ysgolion Sul am 2.30 o’r gloch
yn y Fferm Ffantasi, Llanrhystud
Thema: ‘Fferm y Bugail Da’; Gŵr Gwadd: Mr Erwyd Howells

### *Y TE MISOL*



Cynghorion buddiol ac amserol ar gyfer yr ardd oedd gan Gwyn Evans ar ein cyfer yng nghyfarfod ola’r tymor brynhawn Mercher cynta’ mis Mawrth. Yn ystod y gaeaf, cawsom hefyd y pleser o groesawu Iola Thomas o fudiad Croesffyrdd Ceredigion a Llinos Dafis – gwirfoddolwraig gyda mudiad Homestart – y naill fudiad fel y llall yn cynnig help llaw ymarferol i ofalwyr a theuluoedd. David James roes inni beth o hanes Meddygon Myddfai a’i gysylltiad teuluol â’r ardal. Nia Lewis fu’n dewis ac yn cyflwyno ei hoff ganeuon Nadolig, a Janice Thomas o’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol daeth â hanes Llanerchaeron inni.


Prif nod y te misol yw helpu i gynnal ein cymdeithas tra’n mwynhau cyfarfod a gwrando ar ein gwesteion difyr.

Rhydd y casgliad gyfle hefyd inni gyfrannu rhyw ychydig at sawl achos da. Diolch i bawb sy’n cymryd rhan – drwy arwain y defosiwn, cyfeilio neu baratoi a gweini’r te.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i nodi Dydd Gweddi Byd-eang y Gwragedd ar y 5ed o Fawrth eleni yng nghwmni aelodau o Gapel Noddfa ac Eglwys Llandre. Rhoddwyd yr anerchiad gan Ms Beti Griffiths, Llanilar. Lluniwyd y gwasanaeth eleni gan wragedd eglwysi Panama yn America Ganol. Eto diolch i bawb a gymerodd ran.

Byddwn hefyd yn croesawu cyfarfod blynyddol Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Gogledd Aberteifi brynhawn Sadwrn, 3ydd Ebrill 2004 am 2.30 p.m. Gofynnir am gefnogaeth ein haelodau.

### *Defosiwn*



Rydym yng nghanol cyfnod y Grawys, sef y deugain niwrnod hynny rhwng Dydd Mercher Lludw a Sul y Pasg. Roedd i’r cyfnod yma gynt ystyr ysbrydol, cyfnod o hunanddisgyblaeth pan eid heb rhai pethau, er mwyn paratoi ar gyfer dathlu Atgyfodiad Iesu. Mae’r arfer yn parhau yn ein dyddiau ni, gwneud heb siocledi, creision, cwrw, etc., ond, i lawer erbyn hyn, collwyd yr ystyr ysbrydol, a daeth yn gyfle i golli pwysau yn unig!

Ond oni ddaeth hi’n amser i ni, fel Cristnogion, ailafael yn ei wir ystyr? Fe gafwyd y term ‘Dydd Mercher Lludw’ oherwydd fod Cristnogion yn rhoi lludw ar eu pennau yn arwydd o edifeirwch, ac roedd gwneud heb rai pethau yn yr wythnosau oedd yn dilyn yn arwydd o’r un peth. Roedd yn gyfle iddynt ddal eu hunain yng ngoleuni’r Tragwyddol, gweld eu hanneilyngdod, ac edifarhau.

Does yr un ohonom heddiw nad yw’n poeni am gyflwr ein cymdeithas. Ond sut y mae cael y gymdeithas honno yn ôl i’w lle? Yr adwaith yw pasio mwy a mwy o ddeddfau i geisio rheoli ein hunanoldeb a’n diffyg hunanddisgyblaeth. Ond adlewyrchu cyflwr ein calonnau mae ein gweithredoedd. Dyna sialens siwrne’r Grawys, siwrne sy’n dechrau gyda lludw, yn mynd ymlaen drwy dywyllwch edifeirwch, ac sy’n gorffen yng ngoleuni’r Trydydd Dydd pan ddaw’r Crist byw i’n cyfarfod, ‘ac yna bod fy mhobl, a elwir wrth fy enw, yn ymostwng ac yn gweddïo, yn fy ngheisio ac yn dychwelyd o’u ffyrdd drygionus, yna fe wrandawaf o’r nef, a maddau eu pechod ac adfer eu gwlad’.

## Ebrill

3 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Aberteifi
am 2.30 o’r gloch
I annerch: Y Parch Megan Williams, Dolgellau


**4** *Sul y Blodau*
Aled Lewis Evans



5 Gêmau a pharti i blant yr ysgol Sul
2 tan 4 o’r gloch

7 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
yng Nghapel y Garn am 7 o’r gloch

9  *Y Groglith*
Oedfa Gymun am 9 o’r gloch

**11** *Sul y Pasg*
Miss Beti Griffiths 

**18** Bugail — Cymun yn oedfa’r bore

21 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont am 7 o’r gloch

**25** Parch Roger Thomas
Oedfa’r hwyr i’w threfnu

28 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
yng Nghapel Horeb, Penrhyn-coch am 7 o’r gloch

30 Cyfarfod Swyddogion

## Mai

**2** Parch Ddr John Tudno Williams

5 Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu
yng Nghapel Bethel, Aberystwyth am 7 o’r gloch

7 Rihyrsal y plant ar gyfer y Gymanfa Ganu
yng Nghapel Bethel, Aberystwyth am 4 o’r gloch

**9** Parch Wiliam Owen
Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel Bethel,
Aberystwyth am 2.30 a 5.30 o’r gloch

**16** Bugail – Aelodau Eglwys Noddfa yn uno yn y Garn
Bore – Gwasanaeth arbennig am **11 o’r gloch**
ar ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol
yng nghwmni Manon Wyn,
gyda Chinio Bara a Chaws i ddilyn
Hwyr – Oedfa Gymun

21 Cyfarfod Swyddogion

**23** Tegwyn Jones

26 Henaduriaeth Gogledd Aberteifi: oedfa goffáu am 7 o’r gloch
Dathlu Diwygiad 1904–05 a gweinyddu’r Cymun dan
arweiniad y Parch Ddr Eifion Evans

**30** *Sul y Pentecost*
Parch Lewis Wyn Daniel

